# Uned 5: Cyflawni ac Adolygu Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Tir

**Côd yr Uned:** **R/600/9394**

**FfCC Lefel 3:** **BTEC Cenedlaethol**

**Gwerth o ran credydau:** **10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:** **60**

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r dysgwyr ganfod profiad gwaith yn y sector amgylcheddol a thir, cymryd rhan ynddo a'i adolygu. Mae'r uned hon yn bennaf ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu mewn canolfan ac sydd am symud i'r sector neu hyfforddiant neu addysg bellach.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a sgiliau pwysig sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y sector tir, gan drafod cyflogaeth, er enghraifft, yn y diwydiannau ceffylau, gwaith ffarier, ffensio, rheoli pysgodfeydd, blodeuwriaeth, rheoli adar hela a bywyd gwyllt a'u diwydiannau gwasanaeth cysylltiedig.

Bydd y dysgwyr yn elwa o brofiad o'r math o waith maent yn dymuno ei gyflawni ac yn cael syniad o ddisgwyliadau'r rhai a allai eu cyflogi. Gellir cael profiad gwaith trwy nifer o lwybrau, er enghraifft fel rhan o leoliad gwaith diwydiannol tra'u bod yn y coleg, wrth weithio i gynllun dyddiol neu wythnosol yng nghyfleusterau masnachol a/neu addysgiadol canolfan, neu wrth gyflawni gwaith gwirfoddol yn y diwydiant. Bydd profiad gwaith blaenorol a chyfredol perthnasol yn y diwydiant yn cyfrif. Gellid cael profiad hefyd trwy fod yn aelod o grŵp o ddysgwyr a wahoddir i gyflawni gwaith ymarferol, er enghraifft, mewn canolfan achub anifeiliaid neu weithdy peirianneg. Gallai hyn oll fod yn ddefnyddiol wrth gasglu tystiolaeth i fodloni'r meini prawf asesu a graddio ar gyfer yr uned hon.

Ni ddylai profiad gwaith gynnwys cyflawni gweithgareddau yn y gweithle yn unig. Mae siarad â'r rhai sydd â phrofiad o ddiwydiannau penodol a/neu sefyllfaoedd, gwrando arnynt a'u gwylio yn ffyrdd dilys o ddechrau deall y gwaith dan sylw a'r hyn sy'n ddisgwyliedig gan weithiwr.

Mae'r uned yn rhoi cyfle i'r dysgwyr fyfyrio ar eu profiad personol a nodi anghenion hyfforddi pellach a chyfleoedd cyflogaeth posib.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Ddeall y cyfleoedd yn y diwydiant amgylcheddol a thir

2 Gallu paratoi ar gyfer profiad gwaith yn y diwydiant amgylcheddol a thir

3 Gallu cyflawni profiad gwaith yn y diwydiant amgylcheddol a thir

4 Gallu adolygu profiad gwaith yn y sector amgylcheddol a thir.

## Cynnwys yr uned

### 1 Deall y cyfleoedd yn y diwydiant amgylcheddol a thir

*Y sector amgylcheddol a thir:* cynrychioliad cyffredinol priodol o ddiwydiannau cyfredol ee cnydau amaethyddol, da byw amaethyddol, gofal anifeiliaid, technoleg anifeiliaid, dyframaeth, cadwraeth amgylcheddol, ceffylau, gwaith ffarier, ffensio, rheoli pysgodfeydd, blodeuwriaeth, rheoli adar hela a bywyd gwyllt, peirianneg tir, tirwedd, garddwriaeth cynhyrchu, coed a phren a nyrsio milfeddygol

*Cyfleoedd:* ystod o gyfleoedd gyrfa a datblygiad yn y sector tir; cyfleoedd mewn sectorau cysylltiedig ee manwerthu, hamdden, twristiaeth, lletygarwch

### 2 Gallu paratoi ar gyfer profiad gwaith yn y diwydiant amgylcheddol a thir

*Dethol a chymhwyso:* nodi dyheadau cysylltiedig â gwaith; nodi gweithgareddau cysylltiedig â gwaith; dogfennau perthnasol ee curriculum vitae, llythyr cais

*Sgiliau cyfweliad:* iaith corff; gwedd bersonol a hylendid

*Dulliau cyfathrebu:* ee pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, mewn memo, llythyr ffurfiol, cyflwyniad, paratoi; gwybodaeth am y rôl mae’r cyfweliad ar ei chyfer

*Paratoi ar gyfer profiad gwaith:* nodi a dethol adnoddau priodol i gyflawni’r profiad gwaith; dibynadwyedd; presenoldeb; prydlondeb; ymroddiad; defnyddio menter; cydweithrediad

*Targed, nodau ac amcanion:* cyfyngiadau amser, cyflawnadwy, eu cwblhau'n ddiogel, yn hylan, yn drylwyr, gan adrodd am unrhyw anghysondebau a nodwyd

*Iechyd a diogelwch:* asesu risg; polisïau a gweithdrefnau yn y lleoliad gwaith; dulliau diogel o drin â llaw; gweithdrefnau brys; diogelwch y gweithle

### 3 Gallu cyflawni profiad gwaith yn y diwydiant amgylcheddol a thir

*Profiad gwaith:* yn y sector tir neu sector cysylltiedig

*Cadw cofnodion:* rhesymau dros wneud; cymhwysedd; cywirdeb; amseru; yr wybodaeth angenrheidiol ee lleoliad neu gofnodi offer, dyddiad, amser, gwybodaeth cynnal a chadw

*Dyddiadur personol:* gweithgareddau cofnodi; nod a chanlyniad; cyflawniadau

### 4 Gallu adolygu profiad gwaith yn y sector amgylcheddol a thir

*Cyflwyno tystiolaeth:* math ee cofnod personol dyddiol, dyddiadur, portffolio tystiolaeth, portffolio dysgu unigol, blog, wici

*Gwella:* nodi gwelliannau ee gweithrediadol, gwleidyddol, cyfreithiol, masnachol, adnoddau, ariannol, amgylcheddol, ffisegol; gwerthuso gwelliannau a gynigir; cyfiawnhau gwelliannau a awgrymir a/neu rai gwirioneddol; gwelliant parhaus ar bob lefel o fusnes neu sefydliad (pwysigrwydd, buddion); arbedion cost

*Datblygiad personol:* gosod amcanion eich hun a chan gyflogwr; rhesymau dros fonitro ac adolygu; cyfleoedd addysg ac hyfforddiant ee sefydliad addysgiadol/hyfforddi, seiliedig ar waith; gwerth cyflwyno a phrofiad; ffyrdd y mae unigolion yn datblygu yn y gwaith; cyfraniad unigol i'r busnes neu nodau'r sefydliadau ac i waith tîm; menter; hunan-gymhelliad; hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i newid; myfyrio ar ymagweddau a pherthnasoedd personol; cydnabyddiaeth

 © Pearson Education Limited 2019

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 gwerthuso cyfleoedd gyrfa a datblygiad mewn diwydiant amgylcheddol a thir | T1 cyfiawnhau ystod addas o gyfleoedd gyrfa a datblygiad o fewn diwydiant tir a ddewiswyd | Rh1 dewis yn annibynnol a defnyddio sgiliau cyfweliad priodol ar gyfer profiad gwaith a ddewiswyd |
| Ll2 dewis profiad gwaith priodol a chwblhau'r broses ymgeisio | T2 paratoi'n annibynnol ar gyfer profiad gwaith, gan egluro targedau, nodau ac amcanion dilys | |
| Ll3 arddangos sgiliau cyfweliad fel ymgeisydd mewn cyfweliad | | |
| Ll4 paratoi ar gyfer profiad gwaith, gan egluro targedau, nodau ac amcanion [HR, DM] | | |
| Ll5 cyflawni profiad gwaith priodol a ddewiswyd | | |
| Ll6 cynnal cofnod o weithgareddau a chyflawniadau yn ystod profiad gwaith | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll7 cyflwyno tystiolaeth o weithgareddau a chyflawniadau yn ystod profiad gwaith [DM] | T3 egluro cryfderau a meysydd i'w gwella mewn profiad gwaith penodol | Rh2 adolygu'n drylwyr brofiad gwaith penodol, sgiliau personol a chyfleoedd am sgiliau |
| Ll8 adolygu profiad gwaith, nodi cryfderau a meysydd i'w gwella | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Allwedd** | YA – ymholwyr annibynnol<br>MC – meddylwyr creadigol<br>DM – dysgwyr myfyriol<br>GT – gweithwyr tîm<br>HR – hunan-reolwyr<br>CE – cyfranogwyr effeithiol |


 © Pearson Education Limited 2019

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Gallai'r tiwtoriaid ddefnyddio amrediad eang o dechnegau, gan gynnwys darlithoedd, trafodaethau, cyflwyniadau seminar, lleoliadau gwaith, siaradwyr gwadd, ymweliadau safle a gwaith ymarferol, ymchwil ar y we a/neu mewn llyfrgell a defnyddio profiad personol a/neu yn y diwydiant.

Dylid monitro lleoliadau profiad gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y profiad dysgu. Byddai'n fuddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn ymwybodol o ofynion yr uned hon cyn cyflawni unrhyw weithgareddau yn y gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd. Er enghraifft, mae'n bosib y caiff dysgwyr gyfle i gyflawni asesiadau risg o'r gweithgareddau yn y gwaith, a dylid eu hannog i holi am gofnodion arsylwi a/neu ddatganiadau tystion i'w defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer hyn. Darperir arweiniad ar sut mae defnyddio cofnodion arsylwi a datganiadau tystion ar wefan Edexcel (www.edexcel.com).

Yn ddelfrydol, dylid rhoi cyfle i'r dysgwyr ennill profiad gwaith gwirioneddol trwy nifer o ffyrdd, ee fel rhan o leoliad diwydiannol yn ystod eu cyfnod yn y coleg; wrth weithio i gynllun dyddiol neu wythnosol yng nghyfleusterau masnachol a/neu addysgu'r ganolfan; wrth gyflawni gwaith gwirfoddol yn y sector amgylcheddol a thir; fel profiad gwaith perthnasol blaenorol neu gyfredol yn y sector amgylcheddol a thir; neu fel aelod o grŵp o ddysgwyr a wahoddwyd i gyflawni gwaith ymarferol. Ni ddisgwylir i ddysgwyr gael profiad gwaith o bob sector amgylcheddol a thir. Er enghraifft, gall y rhai sydd eisoes wedi nodi eu dewis lwybr gyrfa ganolbwyntio ar ddiwydiant penodol. Rhaid i'r dysgwyr gyflawni o leiaf 300 awr neu waith/astudio cysylltiedig i gwblhau'r uned hon yn llwyddiannus.

Rhaid pwysleisio materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gweithio yn y sector amgylcheddol a thir a'u hatgyfnerthu, a rhaid cyflawni asesiadau risg cyn unrhyw weithgarwch ymarferol.

Dylai tiwtoriaid ystyried cyfuno'r cyflwyno, yr astudio preifat a'r asesu ar gyfer yr uned hon gydag unedau ac offer asesu perthnasol eraill mae'r dysgwyr yn eu cymryd fel rhan o'u rhaglen astudio. Rhaid rhoi amser a gefnogir i'r dysgwyr gynllunio ac adolygu eu datblygiad eu hunain.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned |
| **Aseiniad 1: Llwybrau gyrfa a datblygiad** (Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Theori: cyflwyno'r llwybrau a chyfleoedd gyrfa gwahanol |
| Ymchwil: cyfleoedd gyrfa a datblygiad yn y sector tir gan nodi gofynion, sgiliau a phriodoleddau amrediad o ddiwydiannau |
| Theori: trafod sgiliau cyfweliad |

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| Chwarae rôl: sgiliau cyfweliad ar gyfer ystod o ddiwydiannau |
| **Aseiniad 2: Dyddiadur gwaith ymarferol** (Ll4, Ll5, Ll6, Ll7, Ll8, T2, T3, Rh2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Theori: cyflwyno a thrafod paratoi, cyflawni ac adolygu profiadau gwaith |
| Cymhwysiad ymarferol amrediad o brofiadau gwaith (ymarferol) |
| Trafod buddion cynnal a chyflwyno cofnodion gwaith a'r rhesymau dros wneud hynny |
| Edrych ar ystod o ddulliau cynnal a chyflwyno cofnodion |
| Profiad gwaith |
| Adolygu a myfyrio |
| Profiad gwaith |
| Adolygu a myfyrio |
| Profiad gwaith |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Ar gyfer Ll1, Ll2 a Ll3, mae angen i'r dysgwyr ymchwilio i'r cyfleoedd gyrfa a datblygiad mewn un diwydiant amgylcheddol a thir a'u gwerthuso. Disgwylir i'r dysgwyr ganolbwyntio ar un diwydiant o ddiddordeb iddynt hwy o fewn y sector amgylcheddol a thir. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad neu adroddiad ar ddiwydiant o'u dewis. Dylai'r dysgwyr ddethol profiad gwaith priodol yn seiliedig ar eu hymchwil a'u gwerthusiad a pharatoi a chwblhau proses ymgeisio ar gyfer y rôl dan sylw. Rhaid i'r tiwtoriaid sicrhau bod proses ymgeisio briodol a realistig ar gael i'r dysgwyr. Ar gyfer Ll3, mae angen i'r dysgwyr arddangos eu sgiliau cyfweliad fel cyfwelai. Gall y tiwtor asesu hyn trwy chwarae rôl. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer hyn fod ar ffurf tystiolaeth tystion a/neu gofnodion arsylwi.

Ar gyfer Ll4, Ll5, Ll6 a Ll7, dylai'r dysgwyr gadw dyddiadur gwaith ymarferol. Rhaid i'r dyddiadur arddangos sut mae'r dysgwr yn paratoi ar gyfer profiad gwaith, gan bennu targedau, nodau ac amcanion. Rhaid i'r dyddiadur gwaith gefnogi cofnodi gweithgareddau a chyflawniadau wrth gyflawni'r profiad gwaith.

Ar gyfer Ll8, dylai'r dysgwyr adolygu'r profiad gwaith gan nodi cryfderau a meysydd i'w gwella a darparu tystiolaeth addas o gyflawni targedau yn y gwaith. Gallai hyn fod ar ffurf tystiolaeth tystion neu dystiolaeth ffotograffig wedi'i dilysu.

Ar gyfer T1, rhaid i'r dysgwyr gyfiawnhau ystod addas o gyfleoedd gyrfa a datblygiad o fewn y diwydiant tir a ddewiswyd. Dylai'r dysgwr ddewis ystod a allai fod yn addas iddynt hwy eu hunain. Gallai'r dystiolaeth gael ei darparu drwy sesiwn gyflwyno lle bydd dysgwyr gwahanol yn trafod gyrfaoedd mewn gwahanol ddiwydiannau.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr baratoi'n annibynnol ar gyfer profiad gwaith, gan egluro'r targedau, y nodau a'r amcanion. Gellid cofnodi hyn mewn dyddiadur gwaith a fyddai'n eu galluogi i fyfyrio'n hawdd ar eu perfformiad yn ddiweddarach.

Ar gyfer T3, rhaid i'r dysgwyr egluro'u profiad gwaith trwy o leiaf dri chryfder ac o leiaf un maes i'w wella. Gallai'r dystiolaeth fod yn ddyddiadur gwaith.

Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr ddethol yn annibynnol y sgiliau cywir a'u defnyddio'n gywir wrth gyflawni profiad gwaith a ddewiswyd gan y tiwtor. Dylid trafod dewis y profiad ar y cyd â'r dysgwr cyn yr asesiad.

Ar gyfer Rh2, rhaid i'r dysgwyr asesu eu profiad gwaith a myfyrio arno gan roi manylion ynghylch y berthynas rhwng eu profiad a'u disgwyliadau gwreiddiol ac a gyflawnwyd eu targedau, eu nodau a'u hamcanion. Dylid hefyd nodi manylion cryfderau a meysydd i'w gwella yn y dyddiadur gwaith ymarferol, a dylai'r dysgwyr gyflwyno argymhellion ar gyfer gwaith yn seiliedig ar yr adolygiad hwn.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1 | Llwybrau a datblygiad gyrfa | Rydych am gael gyrfa mewn diwydiant tir penodol. Wedi i chi werthuso'r cyfleoedd gyrfa a datblygiad yn y diwydiant, byddwch yn cymryd rhan mewn proses ymgeisio a chyfweld lle byddwch yn cael eich arsylwi. | tystiolaeth tystion<br>cofnodion arsylwi wedi'u cwblhau<br>arsylwi ymarferol |
| Ll4, Ll5, Ll6, Ll7, Ll8, T2, T3, Rh2 | Dyddiadur gwaith ymarferol | Wrth gyflawni profiad gwaith mewn diwydiant penodol, byddwch yn arddangos eich bod yn gallu paratoi ar gyfer pennu targedau, nodau ac amcanion a'u cyflawni. Wrth gyfranogi dylech gadw dyddiadur ymarferol yn nodi eich cyflawniadau a'ch gweithgareddau. Dylai'r dyddiadur hefyd adolygu eich gwaith. | tystiolaeth ysgrifenedig/blog/wici<br>ffurflenni arsylwi wedi'u cwblhau, tystiolaeth tystion |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| |
|---|
| **Lefel 2** |
| Cyflawni Profiad Gwaith yn y Diwydiannau Tir |
| **Lefel 3** |
| Cyflawni Prosiect Ymchwilio yn y Sector Tir |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad o dan oruchwyliaeth i safleoedd gwaith priodol (gweler adran Cyflwyniad a Chyflwyno'r Uned am fanylion).

Mae cyfleusterau cymorth cyntaf a thiwtoriaid wedi'u hyfforddi'n briodol yn hanfodol ar gyfer y gweithgareddau ymarferol.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar agweddau ymarferol profiadau gwaith, bydd yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i'r dysgwyr o ystod o sgiliau cyfweliad a gwaith ymarferol. Anogir canolfannau i greu a datblygu cysylltiadau â sefydliadau tir lleol. Gallai hyn fod ar ffurf darlithwyr gwadd, ymweliadau a/neu gwegamerâu.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Innes J – *The Interview Book: Your Definitive Guide to the Perfect Interview* (Prentice Hall, 2009) ISBN 9780273721758

James J – *You're Hired! Cyfweliad: Tips and Techniques for a Brilliant Interview* (Trotman, 2009) ISBN 9781844551781

Mills C – *You're Hired! CV: How to Write a Brilliant CV* (Trotman, 2009) ISBN 9781844551774

## Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.countryside-jobs.com | Yn cael ei gyhoeddi bob chwarter mae CJS (Countryside Jobs Service) Focus i'w weld yn llawn ar ei wefan ac yn cael ei hyrwyddo yn CJS Daily Online a CJS Monthly. |
| www.defra.gov.uk | Defra yw adran llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am bolisi a rheoliadau yr amgylchedd, bwyd a materion gwledig. |
| www.environment-agency.gov.uk | Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn Weithrediaeth Corff Cyhoeddus Anadrannol sy'n atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. |
| www.fwi.co.uk | Farmers Weekly Interactive |
| www.growcareers.info | Gwefan yn rhoi gwybodaeth am yrfaoedd garddwriaethol |
| www.hse.gov.uk | Nod y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch yw bod yn sefydliad enghreifftiol o ran rheoli iechyd a diogelwch a pherfformiad. |
| www.land-force.org.uk/index.aspx | Swyddi ar y Tir ar-lein |
| www.lantra.co.uk | Lantra yw Cyngor Sgiliau'r Sector ar gyfer y diwydiannau amgylcheddol a thir ac mae’n gweithio gyda 17 o ddiwydiannau ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. |
| www.naturenet.com | Cefn Gwlad a Chadwraeth Natur yn y Deyrnas Unedig |
| www.pathfinder.co.uk | Ymarferwyr hynod brofiadol yn gweithio gyda sefydliadau i'w gwneud yn fwy effeithiol ac i gyflwyno canlyniadau busnes mesuradwy. |
| www.ruralslp.co.uk/index.aspx | Fframwaith Cymhwysedd ar-lein Lantra |
| www.studenttimes.org | Papur newydd cenedlaethol y Deyrnas Unedig i fyfyrwyr |

 © Pearson Education Limited 2019

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl isod yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Dysgwyr myfyriol** | gosod targedau, nodau ac amcanion maent yn gosod targedau gyda meini prawf llwyddiant ar gyfer eu datblygiad a'u gwaith<br>cyflwyno tystiolaeth o'u gweithgareddau a'u cyflawniadau maent yn gwerthuso eu profiadau a'u dysgu i gyfeirio'u perfformiad yn y dyfodol. |
| **Hunan-reolwyr** | paratoi ar gyfer profiad gwaith maent yn trefnu amser ac adnoddau ac yn blaenoriaethu targedau a gweithredoedd. |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | cyflawni ymchwil i yrfaoedd a datblygiad ac yn gwerthfawrogi'r canlyniadau |
| **Meddylwyr creadigol** | dethol ac yn defnyddio sgiliau cyfweliad yn briodol i ddewis profiadau gwaith penodol maent yn eu haddasu wrth i amgylchiadau newid |
| **Dysgwyr myfyriol** | adolygu profiad gwaith maent yn ei asesu eu hunain, gan nodi cyflawniadau |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio a defnyddio systemau TGCh yn annibynnol ar gyfer tasgau cymhleth i fodloni anghenion amrywiol | |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | cyflawni ymchwil i yrfaoedd a datblygiad ac yn gwerthfawrogi'r canlyniadau |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio – a gwerthuso ei haddasrwydd at y diben | |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â’i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>● testun a thablau<br>● delweddau<br>● rhifau<br>● cofnodion | gosod targedau, nodau ac amcanion maent yn gosod cerrig milltir gyda meini prawf llwyddiant ar gyfer eu datblygiad a'u gwaith |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i weddu i’r cynnwys a'r diben | |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n gweddu i'r diben a'r gynulleidfa | |
| Gwerthuso'r detholiad a'r defnydd o offer TGCh a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth | |
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn ... |
|---|---|
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Nodi'r sefyllfa neu’r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | |
| Dethol a defnyddio ystod o sgiliau i ganfod datrysiadau | defnyddio mathemateg mewn profiad gwaith er enghraifft trwy gyfrifo trefn bwydo planhigion neu anifeiliaid effeithlon |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando – gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | arddangos sgiliau cyfweliad fel cyfwelai |
| Darllen – cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | |
| Ysgrifennu – ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | |